# Pwyllgor y Ty

## Cofnodion

### Dyddiad: 28 Medi 2006
### Amser: 2.00pm
### Lle: Ystafell Bwyllgor 3, Senedd, Bae Caerdydd

**Aelodau yn bresennol:**

Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, AC Llafur
Peter Black, AC Democrat Rhyddfrydol
William Graham, AC Ceidwadwr
Janice Gregory, AC Llafur
Jane Hutt, AC Llafur
Owen John Thomas, AC Plaid Cymru
Y Llywydd (yn bresennol)

**Swyddogion yn bresennol:**

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
Dianne Bevan, Dirprwy Glerc y Cynulliad a Chlerc Pwyllgor y Ty
Gwen Parry, Cyfarwyddwr Cyfathrebu'r Cynulliad
Adrian Crompton, Pennaeth Gweithredol Gwasanaeth Pwyllgor ac Ymchwil yr Aelodau
Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol
Steven O'Donoghue, Rheolwr Cyllid Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad
Wayne Cowley, Pennaeth y Swyddfa Ffioedd
Catherine Morris, y Weithrediaeth Seneddol
Gareth Brydon, Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty

**Yn bresennol hefyd:**

Alun Cairns, Cadeirydd yr Is-grwp Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (ar gyfer eitemau 2.1iv, 2.8 a 3.2 ar y rhaglen)
Kim Owen, Gwerth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, (ar gyfer eitem 2.1 i ar y rhaglen)
Julia Reid (ar gyfer eitem 2.3 ar y rhaglen)

| | |
|---|---|
| | **Cyflwyniadau** |
| | |
| | Croesawodd y Cadeirydd Alun Cairns AC, Julia Reid a Kim Owen i’r cyfarfod. |
| | |
| 1 | **Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi** |
| | |
| 1.1 | Nododd yr aelodau fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2006 wedi cael eu cyhoeddi ar 7 Awst 2006. |
| | |
| 1.2 | Camau yn codi o gyfarfodydd blaenorol HC(2)-09-06(p1) |
| | |
| | Defnyddio Swyddfeydd y Senedd yn ystod Sesiynau Llawn<br><br>Dywedodd Gwen Parry bod y mater hwn yn mynd rhagddo ond nid oedd unrhyw beiriannau argraffu yn y swyddfeydd ar hyn o bryd.<br><br>Ansawdd y sain mewn ystafelloedd Pwyllgora llai<br><br>Nododd y Pwyllgor y camau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas â’r acwsteg yn yr ystafelloedd Pwyllgora.<br><br>Y dewisiadau URL ar wefan y Cynulliad<br><br>Dywedodd Gwen Parry y gallai’r mater gymryd rhyw faint o amser i’w ddatrys. Ond yr oedd rhestr o enwau parth wedi cael eu prynu ac yr oeddent ar gael i Aelodau eu harchwilio. |
| 2 | **Eitemau y mae angen penderfyniad arnynt** |
| 2.1 | Senedd |
| | i) Trosglwyddo cyfrifoldeb y Senedd HC(2)-09-06(p2) |

Yr oedd Mrs Kim Owen, Dirprwy Bennaeth tîm prosiect Adeilad Newydd y Cynulliad, wrth law ar gyfer yr eitem hon.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ynglyn â statws presennol y prosiect ac a ddylid derbyn cyfrifoldeb am weithredu a chynnal y Senedd at y dyfodol neu beidio.

Dywedodd Mrs Owen bod nifer fechan o ddiffygion yn dal i fod yn yr adeilad a disgwylir y byddant yn cael eu cywiro yn ystod yr wythnosau nesaf.

Dywedodd Jane Hutt ei bod o'r farn y byddai'n briodol yn awr i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad gymryd cyfrifoldeb ffurfiol am y Senedd. Dywedodd y Clerc bod angen eglurdeb o ran llywodraethu rhwng staff y Llywodraeth a Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. Felly roedd yr Ysgrifennydd Parhaol, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, a'r Clerc fel Swyddog Cyfrifyddu i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad, yn argymell y dylai'r cyfrifoldeb fod gyda Phwyllgor y Ty yn unig.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bryderus y byddai'n rhaid i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad dalu'r biliau fydd yn codi o waith atgyweirio yn y dyfodol.

Dywedodd y Llywydd nad oedd yn meddwl ei fod yn briodol derbyn trosglwyddo adeilad o ansawdd mor uchel hyd nes y byddai'r Comisiwn Cysgodol yn gallu cymryd cyfrifoldeb llawn. Dywedodd bod angen rhagor o amser i ddatblygu'r gallu amgylcheddol oedd ei angen i reoli'r Senedd.

Cytunodd yr aelodau y dylid cyfeirio'r mater hwn yn ôl at y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2006.

Gweithredu : Dianne Bevan

ii) Tymheredd yn y Senedd (Eitem Llafar)

Dywedodd Dianne Bevan bod y mater yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan gwmni amgylcheddol arbenigol ac y byddai'n adrodd yn ôl eto i'r Pwyllgor.

Gweithredu: Dianne Bevan

iii) Rhwystrau ffyrdd yn Pierhead Street a Harbour Drive (Eitem Llafar)

Dywedodd Dianne Bevan nad oedd gan Taylor Woodrow ddiddordeb, bellach, mewn codi'r rhwystrau ffyrdd. Argymhellodd y dylid rhoi'r cynllun allan i dendr. Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai hyn yn gallu cynnwys yr opsiwn o reoli'r rhwystrau gyda rheolydd pell diwifr os yn bosib.

Cytunodd yr aelodau gyda'r argymhelliad a bydd y mater yn dod yn ôl i'r Pwyllgor gyda hyn.

Gweithredu: Dianne Bevan

iv) Cyllido Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Clyweled a darlledu yn y Senedd HC (2)-09-06(p3)

Croesawodd y Cadeirydd Alun Cairns i'r cyfarfod, a oedd yn mynychu fel Cadeirydd yr Is-Grwp Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

Bu Pwyllgor y Ty yn ystyried y newyddion diweddaraf ynglyn â'r sefyllfa ariannol gyfredol mewn perthynas ag ariannu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Clyweled a Darlledu yn y Senedd a chais gan y Gweinidog Cyllid i ddefnyddio Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn ar gyfer costau sy'n codi o'r penderfyniad mewn egwyddor i beidio â mynd ar ôl trefniant Gwasanaeth a Reolir.

Bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod eitem 2.8 y Gyllideb Ddrafft 2007/08 ac eitem 3.2 ii Is-Grwp Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, cofnodion cyfarfod 21 Medi 2006 gyda'r papur hwn. Hefyd rhoddwyd ystyriaeth i bapur a roddwyd ger bron gan Dianne Bevan mewn perthynas â'r costau diwygiedig ar gyfer darparu fferm serfiwr estynedig ar wahân.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cynnal y cyfarfod gyda'r Gweinidog Cyllid ynglyn â'r gyllideb, fel sy'n ofynnol yn ôl y Gorchmynion Sefydlog. Cadarnhawyd y bydd Pwyllgor y Ty yn cadw cyfrifoldeb ffurfiol am gyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad a'r Comisiwn tan fis Mai 2007.

Dywedodd Alun Cairns bod yr Is-Grwp Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn dal i argymell trafod contract gyda Merlin ar gyfer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn y Senedd gan y byddai hynny'n caniatáu i Gomisiwn y Cynulliad benderfynu ar y ffordd orau ymlaen. Ond nid oedd Merlin wedi rhoi dyfynbris am yr opsiwn 'gwasanaeth yn unig' hyd yma.

Dywedodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor wedi cytuno'n flaenorol i gynnig i ddarparu fferm serfiwr estynedig ar wahân yn Swyddfa'r Cynulliad. Dywedodd Alun Cairns bod Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'r Senedd yn fater ar wahân i ddarparu fferm serfiwr.

Dywedodd y Llywydd bod y Cynulliad eisoes yn rhan o lwyfan Technoleg Gwybodaeth a

Chyfathrebu sy’n cael ei rannu yng Nghymru a bod y Comisiwn Cysgodol yn ceisio archwilio sut y gellid ei ddefnyddio yn y dyfodol. Yr oedd Merlin wedi dweud y byddai efallai’n bosib i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad rannu gallu serfiwr Heol Bedwas gyda’r Llywodraeth.

Bu’r aelodau yn trafod eu profiad o Merlin a’u gofynion Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Rhoddodd Peter Black grynodeb o’r sefyllfa ar sail y papurau a gyflwynwyd i’r Aelodau. Dywedodd na fyddai penderfyniad y Pwyllgor, beth bynnag fyddai’r penderfyniad hwnnw, yn effeithio ar y gyllideb ddrafft.

Dywedodd Clerc y Cynulliad ei fod wedi cael gwybod gan swyddogion y Llywodraeth y gallai’r ganolfan ddata newydd, sydd i gael ei hadeiladu yn Heol Bedwas, ddileu’r angen am waith adeiladu yn y Bae. Byddai hyn yn caniatáu i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad weithredu ar wahân mewn perthynas â Mewnrwyd Ddiogel y Llywodraeth a gallu’r serfiwr. Yn y pen draw, byddai’r Comisiwn mewn sefyllfa i roi ei wasanaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu allan i gontract, os byddai angen hynny. Nid oedd cost y gwaith technegol i gyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn wybyddus hyd yma, ond amcangyfrifwyd y byddai’n llai na’r gost o ymestyn darpariaeth y serfiwr yn Swyddfa’r Cynulliad.

Cytunodd yr aelodau y dylai’r penderfyniad i ymestyn darpariaeth y serfiwr yn Swyddfa’r Cynulliad gael ei ddal yn ôl ar hyn o bryd, hyd nes y bo’r opsiwn Ffordd Bedwas wedi cael ei ystyried ymhellach. Bydd y mater yn dod yn ôl i Bwyllgor y Ty yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2006.

Gweithredu: Dianne Bevan/Gwen Parry

Bu’r Pwyllgor yn trafod y mater ymhellach yng nghyd-destun y gyllideb ddrafft ar gyfer 2007/08.

Dywedodd Gwen Parry y byddai’r penderfyniad i aros am gyngor pellach ynglyn â dewisiadau fferm serfiwr/Heol Bedwas yn golygu na fyddai’r gwaith ar y fferm serfiwr, os caiff ei ddewis, yn cael ei gwblhau eleni. Dywedodd y Cadeirydd mai’r sefyllfa waethaf bosib oedd y gallai hyn achosi diffyg yng nghyllideb y Cynulliad. Mynegodd ei bryder ac yn wyneb penderfyniad y Pwyllgor i ohirio penderfyniad ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu’r Senedd a’r fferm serfiwr, gofynnodd y Cadeirydd i’r Aelodau a oeddent eisiau gohirio penderfyniad ar y gyllideb ddrafft hefyd.

Cadarnhaodd yr aelodau y dylai’r gyllideb y cytunwyd arni yn y cyfarfod blaenorol gael ei gosod ger bron y Cynulliad, yn amodol ar y diwygiadau a restrir ym mhapur 11.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn ymddiswyddo fel Cadeirydd Pwyllgor y Ty yn wyneb penderfyniad y Pwyllgor.

Bu’r Pwyllgor yn trafod eitem 2.1iv, HC(2)-09-06(p3) Atodiad A, llythyr oddi wrth Sue

| | |
|---|---|
| | Essex AC, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.<br><br>Cytunodd yr aelodau y dylai swyddogion Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad gynnal trafodaethau gyda swyddogion y Llywodraeth ynglyn â lefel y cyfraniad i'r costau a ddynodwyd a dylai'r mater ddod yn ôl i'r Pwyllgor ar 9 Tachwedd.<br><br>Gweithredu: Dianne Bevan |

| | |
|---|---|
| 2.2 | Defnydd achlysurol o dir ar Ystâd y Cynulliad yn y Bae HC(2)-09-06(p4)<br><br>Gofynnwyd i'r aelodau ystyried canllawiau ynglyn â sut y dylai'r Pwyllgor ystyried ceisiadau ad hoc am ddefnydd dros dro ac achlysurol o dir y Cynulliad o amgylch y Senedd yn y dyfodol.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r mater gael ei gyfeirio at y Grwp Cynghori ar Adeiladau i gael ei ystyried, gan roi ystyriaeth i faterion diogelwch hefyd.<br><br>Gweithredu : Nerys Evans |

| | |
|---|---|
| 2.3 | System Adnoddau Dynol a chyflogres integredig HC(2)-09-06(p5)<br><br>Bu'r Pwyllgor yn ystyried cynnig i weithredu pecyn Adnoddau Dynol a Chyflogres integredig er mwyn gwella'r ddarpariaeth bresennol ac i arbed costau parhaus.<br><br>Cytunodd yr aelodau i weithredu'r system Adnoddau Dynol a Chyflogres integredig arfaethedig a amlinellwyd yn y cynnig. |

| | |
|---|---|
| 2.4 | Etholiad 2007 |

| | |
|---|---|
| | i) Canllawiau cychwynnol i Aelodau ynglyn â chyflog a lwfansau HC (2)-09-06(p6)<br><br>Rhoddodd Pwyllgor y Ty ystyriaeth i ganllawiau ar gyfer Aelodau ynglyn â chyflog a lwfansau, i'w dosbarthu cyn Etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2007.<br><br>Cytunodd yr Aelodau ar:<br><br>·1 gynnwys y canllawiau drafft;<br><br>·2 y ffurflen gais ddrafft;<br><br>·3 y rhestri gwirio drafft i'w cyhoeddi ar gyfer aelodau sy'n ymddeol; ac |

| | |
|---|---|
| | ·4 amser cyhoeddi'r canllawiau i Aelodau. |
| | ii) Trefniadau Colli Swyddi i staff cymorth Aelodau'r Cynulliad HC(2)-09-06(p7)<br><br>Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur a oedd yn nodi'r dull arfaethedig o ddelio gydag unrhyw golli swyddi a allai godi mewn perthynas â staff cymorth Aelodau'r Cynulliad ar ôl Etholiadau Mai 2007<br><br>Cytunodd yr Aelodau:<br><br>· I nodi trefniadau colli swyddi'r staff cymorth.<br><br>· Bod canllawiau drafft yn cael eu dosbarthu i Aelodau o'r Cynulliad sy'n ymddeol a'u cyhoeddi ar dudalen Swyddfa Ffioedd y Fewnrwyd.<br><br>· Bod canllawiau drafft yn cael eu cyhoeddi ar dudalen Swyddfa Ffioedd y Fewnrwyd.<br><br>Gweithredu : Wayne Cowley |
| 2.5 | Newidiadau i gynllun pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru HC(2)-09-06(p8)<br><br>Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur oedd yn nodi'r newidiadau arfaethedig i Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol o ganlyniad i'r drefn pensiwn sydd wedi newid ac a gyflwynwyd yn y Ddeddf Cyllid 2004.<br><br>Cytunodd yr aelodau i'r newidiadau arfaethedig i Gynllun Pensiwn yr Aelodau a chytuno y dylid dynodi amser addas i gymeradwyo'r rheoliadau diwygiedig mewn Sesiwn Lawn cyn diwedd tymor yr hydref.<br><br>Gweithredu : Wayne Cowley |
| 2.6 | Trosglwyddiadau'r Gyllideb 2006/07 HC(2)-09-06(p9)<br><br>Bu'r aelodau yn ystyried papur ynglyn â chost cynigion y Clerc i drosglwyddo cyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad 2006/7.<br><br>Yn wyneb penderfyniad y Pwyllgor mewn perthynas â chyllido Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Clyweledol a darlledu yn eitem 2.1 iv, argymhellodd Steven O'Donoghue y dylai'r cyfeiriad at drosglwyddiad Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu gael ei ddileu o'r papur.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor i gynigion y Clerc ynglyn â throsglwyddiad yn amodol ar ddileu'r trosglwyddiad Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. |

| | |
|---|---|
| 2.7 | Adroddiad y gyllideb alldro derfynol 2005/06 HC(2)-09-06(p10)<br><br>Yn flaenorol bu'r Pwyllgor yn ystyried sefyllfa'r alldro terfynol drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2005/6, yn amodol ar ardystio archwiliad ariannol o gyfrifon y Cynulliad gan Swyddfa Archwilio Cymru.<br><br>Adroddodd Dianne Bevan y bu tanwariant o 2% yng Ngwasanaeth Seneddol y Cynulliad o'i gymharu â'r gyllideb yn 2005/06, a bod gwariant wedi bod yn llawer nes at y gyllideb nag yn y blynyddoedd blaenorol.<br><br>Nodwyd yr adroddiad gan yr Aelodau. |
| 2.8 | Cyllideb ddrafft 2007/08 HC(2)-09-06(p11)<br><br>Derbyniodd y Pwyllgor y sefyllfa ddiweddaraf ynglyn â'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2007/08.<br><br>Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r papur hwn ochr yn ochr ag eitem 2.1 iv Cyllido Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Clyweled a Darlledu ac eitem 3.2 ii Is-Grwp Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Cofnodion Cyfarfod 21 Medi 2006.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor i'r newidiadau a nodwyd yn y papur, sef y newidiadau i gydnabod trosglwyddo cyllidebau o Lywodraeth Cynulliad Cymru, newid cenedlaethol i gydnabod trefniadau cyfrifo newydd i Gronfa Pensiwn yr Aelodau a throsglwyddo gwariant untro o 2007/08 i 2006/07 er mwyn hwyluso prosiectau Technoleg Gwybodaeth. |
| 2.9 | Fforwm Dinasyddion ar ddyfodol Ewrop HC(2)-09-06(p12)<br><br>Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i bapur a oedd yn nodi cynnig i gynnal Fforwm Dinasyddion ar y cyd â Senedd Ewrop ynglyn â Dyfodol Ewrop.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor i'r argymhelliad i gynnal y Fforwm ar y cyd. |
| 3 | **Eitemau i'w nodi** |

| | |
|---|---|
| 3.1 | Prosiect systemau ariannol: y newyddion diweddaraf HC(2)-09-06(p13)<br><br>Cyflwynwyd y newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ynglyn â'r cynnydd o ran gweithredu system ariannol a oedd yn gweithredu'n llawn er mwyn gallu paratoi cyfrifon blynyddol a gwybodaeth am reolaeth gyllidol addas.<br><br>Nodwyd y sefyllfa ddiweddaraf gan yr aelodau.<br><br>i) Is-Grwp Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu<br><br>Cofnodion cyfarfod 5 Gorffennaf 2006 HC(2)-09-06(p14)<br><br>Bu'r Pwyllgor yn ystyried cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2006.<br><br>Cadarnhaodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod. |
| 3.2 | ii) Is-Grwp Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu<br><br>Cofnodion y cyfarfod ar 21 Medi 2006 HC(2)-09-06(p14)<br><br>Yn flaenorol bu'r Pwyllgor yn ystyried cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2006 gydag eitem 2.1 iv Cyllido Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Clyweled a Darlledu ac eitem 2.8 Cyllideb Ddrafft 2007/08.<br><br>Cadarnhaodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod.<br><br>Dangosyddion yn erbyn targedau HC(2)-09-06(p15)<br><br>Nodwyd yr adroddiad gan yr Aelodau.<br><br>Adroddiad cyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad HC(2)-09-06(p16)<br><br>Dywedodd Steve O'Donoghue bod yr adroddiad yn dangos tanwariant sylweddol yn erbyn Gwariant Gweinyddol Cyffredinol. Bydd hyn yn newid unwaith y bydd y taliadau i Merlin yn ailddechrau.<br><br>Nodwyd yr adroddiad gan yr Aelodau.<br><br>Adroddiad Adnoddau Dynol Misol HC(2)-09-06(p17)<br><br>Nodwyd yr adroddiad gan yr Aelodau.<br><br>Mynediad at wybodaeth HC(2)-09-06(p18) |

| | |
|---|---|
| 3.3<br>3.4<br>3.5<br>3.6<br>3.7<br>4<br>4.1 | Nodwyd yr adroddiad gan yr Aelodau.<br><br>Gweithgareddau tramor a chysylltiadau allanol HC(2)-09-06(p19)<br><br>Nodwyd yr adroddiad gan yr Aelodau.<br><br>Materion a gyfeiriwyd gan gynnwys Cwestiynau i'r Cynulliad<br><br>Nododd yr Aelodau bod WAQ47882 a roddwyd gerbron ar gyfer cael ateb ar 13 Medi 2006 wedi cael ei ddosbarthu'n flaenorol. |
| 5 | **Unrhyw Fater Arall** |
| 5.1<br><br>5.2 | Peiriant Arian ATM<br><br>Gofynnodd William Graham a oedd hi'n bosibl i osod peiriant arian ATM yn y Cynulliad.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 9 Tachwedd 2006.<br><br>Y Cadeirydd yn Ymddiswyddo<br><br>Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'n ymddiswyddo fel Cadeirydd Pwyllgor y Ty o ganlyniad i benderfyniad y Pwyllgor mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2007/08.<br><br>Nodwyd y byddai'n rhaid cael Aelod o'r Pwyllgor i gyflwyno'r gyllideb ddrafft i Gyfarfod Llawn y Cynulliad. Cytunodd yr Aelodau y dylai Peter Black ymgymryd â'r dasg hon a chytunodd i wneud hynny.<br><br>Diolchodd yr Aelodau i'r Cadeirydd sy'n ymadael â'i swydd am ei waith caled a'i ymroddiad i Bwyllgor y Ty. Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau'r Pwyllgor ac i'r staff am eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod ei flynyddoedd fel Cadeirydd. |

| | |
|---|---|
| | Dyddiad y cyfarfod nesaf a drefnwyd: 12 Hydref 2006<br><br>Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor y Ty. |